OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 Rhif 192 (Cy. 43)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) (Diwygio) 2018

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *15 Chwefror 2018* |
| *Yn dod i rym - -* | *2 Ebrill 2018* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 80(1)(b) a 187(1)(b) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag adran 187(2)(n) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) (Diwygio) 2018.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 2 Ebrill 2018.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Rheoliadau 2016" ("*the 2016 Regulations*") yw Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) 2016(**2**).

### Diwygio rheoliad 2 o Reoliadau 2016

**3.** Yn rheoliad 2 (dehongli) o Reoliadau 2016, mewnosoder y canlynol yn y lle priodol—

"mae i "gwasanaeth cymorth cartref" ("*domiciliary support service*") yr un ystyr ag a roddir yn adran 2(1)(h) o'r Ddeddf a pharagraff 8 o Atodlen 1 iddi, yn ddarostyngedig i reoliad 3(1) o Reoliadau 2017;";

"ystyr "Rheoliadau 2017" ("*the 2017 Regulations*") yw Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017(**3**);".

(**1**) 2016 dccc 2.
(**2**) O.S. 2016/1235 (Cy. 293).
(**3**) O.S. 2017/1264 Cy. 295).

**Diwygio rheoliad 3 o Reoliadau 2016**

**4.** Mae rheoliad 3 (pennu gweithwyr gofal cymdeithasol) o Reoliadau 2016 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn—

(a) ar ddiwedd paragraff (2)(c), yn lle "." rhodder ";"; a

(b) ar ôl paragraff (2)(c) mewnosoder—

"(d) sydd—

(i) wedi eu cyflogi (pa un ai fel cyflogai neu fel gweithiwr), neu

(ii) wedi eu cymryd ymlaen o dan gontract am wasanaethau,

gan ddarparwr gwasanaeth cymorth cartref er mwyn darparu gofal a chymorth i berson y cyfeirir ato ym mharagraff 8(1) o Atodlen 1 i'r Ddeddf.

(3) At ddibenion y rheoliad hwn, mae i'r termau "cyflogai", "cyflogaeth"(**4**) a "gweithiwr" yr un ystyron ag "employee", "employment" a "worker" yn adran 230(1), (5) a (3) yn y drefn honno o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996(**5**)."

*Huw Irranca-Davies*
Y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

15 Chwefror 2018

(**4**) Mae adran 230(5) o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996 hefyd yn diffinio'r term "employed" drwy gyfeirio at ystyr "employment".

(**5**) 1996 p. 18.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) 2016.

Mae adran 80(1)(b) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("y Ddeddf") yn ei gwneud yn ofynnol i Ofal Cymdeithasol Cymru gadw cofrestr o weithwyr gofal cymdeithasol o unrhyw ddisgrifiad a bennir gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu disgrifiad ychwanegol o weithwyr gofal cymdeithasol y mae rhaid i Ofal Cymdeithasol Cymru gadw cofrestr mewn cysylltiad â hwy, sef y rheini sydd wedi eu cyflogi neu wedi eu cymryd ymlaen gan wasanaeth cymorth cartref rheoleiddiedig i ddarparu gofal a chymorth i bersonau y cyfeirir atynt ym mharagraff 8 o Atodlen 1 i'r Ddeddf.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.